# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
# Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Alun Davies AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Llywodraeth Cymru

15 Hydref 2013

Annwyl Alun

Rwy'n teimlo'n siomedig ac yn rhwystredig ynglŷn â pha mor hwyr y cafodd y Pwyllgor eich papurau'n ymwneud â'r gyllideb. Mae derbyn papurau lai na 48 awr cyn cyfarfod Pwyllgor yn cael effaith ddifrifol ar allu'r Pwyllgor i graffu ar eich cyllideb. Mae hefyd yn dangos diffyg parch tuag at y Pwyllgor, ei Aelodau, a phwysigrwydd ei rôl o ran craffu ar Lywodraeth Cymru.

Mae hyn yn arbennig o ddiflas oherwydd ysgrifennais atoch ar 5 Awst yn amlinellu'r meysydd allweddol yr oeddem am i bapur y gyllideb eu cynnwys. Roedd hyn yn rhoi digon o amser i'ch swyddogion baratoi'r wybodaeth yr oedd y Pwyllgor yn dymuno'i chael. Er gwaethaf hynny, ni dderbyniwyd y papurau tan ar ôl 11am ddydd Llun 14 Hydref. Ni chafodd cwrteisi'r Pwyllgor, yn rhoi digon o amser i chi a'ch swyddogion baratoi, ei ad-dalu a hyd yma, ni roddwyd unrhyw reswm boddhaol dros yr oedi hwn. Hyderaf y gallwch roi eglurhad llawn a didwyll i ni am hyn pan fyddwch yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor yfory.

Mater parhaus a godwyd gan ein Pwyllgor ni a phwyllgorau eraill yn y Cynulliad yw'r angen i Lywodraeth Cymru wella lefel y wybodaeth a'r tryloywder sy'n ymwneud â'r gyllideb. Mae derbyn papurau mor hwyr yn rhwystr i'r tryloywder hwn. Er ein bod yn croesawu'r wybodaeth fanwl a ddarparwyd yn y papur pan gyrhaeddodd o'r diwedd, mae'r ffaith iddo gyrraedd mor hwyr bron yn negyddu defnyddioldeb y wybodaeth a ddarparwyd.

Mae'r hwyrder hwn yn golygu bod y Pwyllgor wedi torri un o'r gofynion yn ein Rheolau Sefydlog, i gyhoeddi dogfennau o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn cyfarfod Pwyllgor. Yn ychwanegol at hynny, mae'n mynd yn groes i'r protocol rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru y dylid darparu papurau wythnos cyn cyfarfod Pwyllgor.

Bae Caerdydd | Cardiff Bay
Caerdydd | Cardiff
CF99 1NA
Ffôn | Tel: 029 2089 8639
E-bost | Email:dafydd.elis-thomas@wales.gov.uk
alun.davidson@wales.gov.uk

Hyderaf y byddwch mewn sefyllfa i fy sicrhau i a fy nghydweithwyr ar y pwyllgor na fydd oedi sylweddol o'r math hwn yn digwydd yn y dyfodol.

Byddwn yn mynegi ein pryderon am hyn yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

**Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd